Llawlyfr Cynrychiolydd Academaidd

2010 - 2011

Cynnwys

Tudalen 1 - Tudalen flaen

Tudalen 2 - Cyflwyniad gan Sarah Ingram, Swyddog Materion Academaidd a Materion y Brifysgol

Tudalen 3 - Tudalen gynnwys

Tudalen 4 a 5 - Beth yw Cynrychiolydd Academaidd?

Tudalen 6 - Gwasanaethau Cymorth Myfyrwyr a'r Ganolfan Cynghor a Chynrychiolaeth

Tudalen 7, 8 a 9 - Undeb y Myfyrwyr

Tudalen 10 ac 11 - Eich rôl a'ch cyfrifoldebau

Tudalen 12 a 13 - Materion a chyflawniadau

Tudalen 14 a 15 - Gweithio o fewn eich Ysgol neu adran

Tudalen 16 a 17 - Paneli Myfyrwyr-Staff

Tudalen 18 a 19 - Cyfathrebu

Tudalen 20 ac 21 - Mynd â phethau ymhellach a strwythur pwyllgor y Brifysgol

Cyflwyniad

Llongyfarchiadau ar ddod yn Gynrychiolydd Academaidd!

Mae Undeb y Myfyrwyr wedi llunio'r pecyn hwn i'ch helpu i ddeall yn union beth yw eich rôl fel Cynrychilydd Academaidd ac i roi syniad i chi o'ch rôl a'ch cyfrifoldebau dros y flwyddyn sydd i ddod, yn ogystal â'r cymorth sydd ar gael i chi. Rwy'n eich annog i gysylltu â mi ac Undeb y Myfyrwyr ar unrhyw adeg os bydd gennych unrhyw ymholiadau neu bryderon am eich rôl neu'r materion sy'n codi yn eich adran.

Mae Cynrychiolwyr Academaidd yn chwarae rôl hanfodol yn y Brifysgol; drwyddynt, caiff myfyrwyr lywio'r cyrsiau y maent yn eu hastudio a gwella'r profiad dysgu, nid yn unig i fyfyrwyr presennol ond hefyd fyfyrwyr y dyfodol.

Fel Cynrychiolydd Academaidd, mae gennych ddylanwad gwirioneddol yn eich maes pwnc ac Ysgol, a gobeithio y bydd y llyfryn hwn o gymorth. Gyda'n gilydd gallwn nid yn unig nodi'r materion sy'n codi gyda'n cyrsiau ond hefyd ddod ynghyd i ddathlu llwyddiannau'r Ysgol a throsglwyddo arferion da i'n gilydd.

Os byddwch byth yn ansicr o unrhywbeth, cofiwch anfon e-bost ataf neu ddod i'm gweld yn yr Undeb. Edrychaf ymlaen at eich hyfforddi ac amlinellu ein tasgau yn y sesiwn hyfforddi i Gynrychiolwyr Academaidd ar 27ain Hydref (8pm), 8fed Tachwedd (5.30pm) neu 22ain Tachwedd (5.30pm) yn yr Uned Datblygu Myfyrwyr ar y trydydd llawr.

Sarah Ingram
Swyddog Materion Academaidd a Materion y Brifysgol
Undeb Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd
academicofficer@cardiff.ac.uk
029 2078 1428

Beth yw Cynrychiolydd Academaidd?

Fel Cynrychiolydd Academaidd, chi yw cynrychiolydd swyddogol eich cwrs.

Mae gennych rôl gadarnhaol i'w chwarae drwy alluogi cyfathrebu a newid adeiladol o fewn eich cwrs. Mae staff eich maes pwnc, y Brifysgol ac Undeb y Myfyrwyr yn gwerthfawrogi eich mewnbwn, sy'n galluogi datblygiad a gwelliant parhaus drwy'r Brifysgol. Mae Cynrychiolwyr Academaidd yn creu'r cyswllt rhwng staff a myfyrwyr.

Mae hon yn broses ddwyffordd ac mae disgwyl i chi nid yn unig gynrychioli eich holl fyfyrwyr i'r staff, ond hefyd drosglwyddo gwybodaeth gan y staff i'r myfyrwyr. Mae'n bwysig ceisio cynrychioli syniadau eich dosbarth cyfan, yn hytrach na defnyddio eich barn bersonol yn unig. Mae hyn yn rhoi mwy o awdurdod a hygrededd i chi a dyma'r unig ffordd y gallwch geisio bod yn wirioneddol gynrychioladol.

Yn ymarferol, eich rôl fel Cynrychiolydd Academaidd yw annog sylwadau gan fyfyrwyr am y Brifysgol, yn enwedig o fewn eich cwrs eich hun. Gallwch wedyn gyflwyno'r safbwyntiau hyn drwy'r sianeli cynrychioli staff a myfyrwyr (paneli myfyrwyr-staff, Cyngor y Myfyrwyr, y Cyngor Academaidd a Phwyllgorau'r Brifysgol), a chyflwyno'r ymatebion hyn i'ch dosbarth.

Mae gennych hefyd y cyfle i wneud mwy a llunio eich agenda eich hun.Cafwyd llawer o gyflawniadau yn y gorffennol, a chyda brwdfrydedd a dyfalbarhad, gallwch barhau i gyflawni a gwneud newid cadarnhaol.

Gall bod yn Gynrychiolydd Academaidd hefyd helpu i ddatblygu sgiliau trosglwyddadwy sy'n ddeniadol i gyflogwyr. Wrth geisio nodi'r sgiliau sydd gennych, mae'n hawdd dweud bod eich rôl fel Cynrychiolydd Academaidd wedi eich galluogi i ddatblygu rhai o'r sgiliau canlynol:

- Siarad Cyhoeddus.
- Sgiliau cyfathrebu.
- Sgiliau Cyfarfod/Pwyllgor
- Gwneud Penderfyniadau.
- Rheoli amser.
- Gwaith Tîm.
- Cyd-drafod.
- Sgiliau cyflwyno.
- Datrys problemau.
- Sgiliau Trefnu.

• Arweinyddiaeth. • Hunanreoli.

Mae bod yn Gynrychiolydd Academaidd yn cynnig llawer o fuddiannau; yn gyffredinol, po fwyaf y byddwch yn ei wneud, gorau oll fydd y buddiannau! Ar wahân i'r sgiliau i hybu'r CV, mae bod yn Gynrychiolydd Academaidd yn eich galluogi i ddysgu mwy am Undeb Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd, y Brifysgol ei hun ac Addysg Uwch yn gyffredinol. Byddwch hefyd yn gallu dylanwadu ar bolisi'r Brifysgol gyfan, a helpu i wneud y System Cynrychiolwyr Academaidd yn fwy effeithiol.



Gwasanaethau Cymorth Myfyrwyr a'r Ganolfan Cyngor a Chynrychiolaeth

Cofiwch nad oes disgwyl i chi fod yn wasanaeth cwnsela na chynghori. Fel Cynrychiolydd Academaidd nid ydych yn gymwys i ymdrin ag:

- Anghydfodau rhwng myfyrwyr a staff academaidd e.e. aflonyddu, gwahaniaethu, erledigaeth;
- Gweithdrefnau ffurfiol e.e. methu arholiadau, apeliadau academaidd, gwrandawiadau unigol.
- Ymholiadau ariannol ac yn ymwneud â chyllid.
- Problemau lles, iechyd a materion personol e.e. tai, cyflogaeth, mewnfudo.

Os daw myfyriwr atoch â phroblem ac nid ydych yn si r sut i'w gynghori, cyfeiriwch ef at staff yn eich adran, Gwasanaethau Cymorth Myfyrwyr, y Ganolfan Cyngor a Chynrychiolaeth, neu Swyddog Etholedig yn Undeb y Myfyrwyr.

Y Ganolfan Cymorth Myfyrwyr

Mae Prifysgol Caerdydd yn cynnig ystod eang o help, cyngor a chymorth cyfrinachol gan staff hyfforddedig proffesiynol. Mae'r Ganolfan Cymorth Myfyrwyr yn rhoi cyngor ar yrfaoedd a chyllid, yn cynnig gwasanaeth cynghori yn ogystal â chymorth i fyfyrwyr rhyngwladol, myfyrwyr ag anableddau a myfyrwyr â dyslecsia. Mae'r Canolfannau Cymorth Myfyrwyr wedi'u lleoli yn 50 Plas-y-Parc (02920 874844) a Th Aberteifi ar safle Parc y Mynydd Bychan (02920 742070) ac maent ar agor rhwng 09:30 a 4:30 yn ystod yr wythnos.
E-bost: studentsupportcentre@cardiff.ac.uk
Gwefan: www.cf.ac.uk/studentsupport/

Y Ganolfan Cyngor a Chynrychiolaeth

Ar 3ydd llawr Undeb y Myfyrwyr, caiff y Ganolfan ei staffio gan gynghorwyr hyfforddedig a chyfrinachol sydd â'r profiad i gynghori myfyrwyr ar amryw bynciau gan gynnwys tai a materion defnyddwyr yn ogystal â rhoi cyngor annibynnol a chynrychiolaeth ar faterion academaidd gan gynnwys gweithdrefnau apelio a ffitrwydd i ymarfer, yn ogystal â gwasanaeth atgyfeirio am help a chymorth pellach. Mae'r Ganolfan ar agor rhwng 10:30 a 3:30 yn ystod yr wythnos a'r manylion cyswllt yw:
Ffôn: 029 2078 1410
E-bost: advice@cardiff.ac.uk

Undeb y Myfyrwyr

Mae Undeb Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd yma i gynrychioli barn myfyrwyr yn y Brifysgol a thu hwnt. Mae cynrychiolaeth myfyrwyr yn cwmpasu nifer o faterion, er enghraifft llety a lles, yn ogystal â materion academaidd. Mae Undeb yn Myfyrwyr hefyd yn darparu gwasanaethau yn amrywio o fariau, safleoedd arlwyo a siopau, i gyfleusterau a chyrsiau datblygu myfyrwyr. Mae rolau allweddol eraill yr Undeb yn cynnwys y cymorth y mae'n ei ddarparu i dros 120 o Gymdeithasau, a bron 60 o Glybiau Chwaraeon, mae'n rhedeg canolfan gyngor o safon, ac yn cynhyrchu papur newydd wythnosol, sef gair rhydd, a chylchgrawn pob pythefnos, sef Quench.

Strwythur Undeb y Myfyrwyr



myfyrwyr | Etholiadau a refferendwm
myfyrwyr | Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol
cynghorwyr etholedig | Cyngor y Myfyrwyr
swyddogion etholedig | Y Pwyllgor Gweithredol
swyddogion etholedig llawn-amser | Tîm Sabothol

Cyngor y Myfyrwyr

Cyngor y Myfyrwyr yw corff llywodraethol Undeb Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd, ac estynnir gwahoddiad i bob myfyriwr fod yn gynghorydd i gynrychioli ei gyd-fyfyrwyr a chyfrannu at y broses barhaus o sicrhau bod yr undeb yn gweithio er budd a dymuniadau'r myfyrwyr. Mae'r cyngor yn cynnwys pob aelod o Bwyllgor Gweithredol yr Undeb a llawer mwy o gynghorwyr myfyrwyr gan gynnwys 15 o Gynrychiolwyr Academaidd.

Mae'r Cyngor yn cyfarfod bob pythefnos i greu, monitro a chraffu ar bolisi'r Undeb. Fodd bynnag, gall unrhyw aelod gynnig syniad neu bolisi ar unrhyw fater unrhyw bryd. Os oes gennych unrhyw broblemau gyda'r ffordd y mae Undeb y Myfyrwyr yn gweithredu, dewch draw i unrhyw un o'r cyfarfodydd. Fel un o fyfyriwr Prifysgol Caerdydd rydych yn un o randdeiliaid yr Undeb hwn, gallwch leisio eich barn am bopeth sy'n digwydd yma, a dylech sicrhau ei fod yn gweithredu yn y ffordd orau posibl

Cyngor Academaidd
Fforwm yw hwn a gynhelir deirgwaith y flwyddyn lle gall Cynrychiolwyr Academaidd rannu arferion da a thrafod problemau y maent yn eu hwynebu. Caiff ei gadeirio gan y Swyddog Materion Academaidd a Materion y Brifysgol ac mae un Cynrychiolydd Academaidd o bob ysgol yn mynychu; yr Uwch gynrychiolydd, neu gynrychiolydd a enwebwyd gan gynrychiolwyr eraill ar eu cwrs.

Mae'r Cyngor Academaidd yn werthfawr nid yn unig fel adnodd i drafod llwyddiannau a phroblemau ond dyma un o'r ychydig ffyrdd y gellir nodi materion cyffredinol yn y Brifysgol a'u cyflwyno i'r Brifysgol.

Menter Ymgysylltu â Myfyrwyr Cymru
Mae'r fenter hon yn brosiect traws-sector gydag Addysg Uwch Cymru (AUC), Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr yng Nghymru, Cyngor Cyllido Addysg Uwch yng Nghymru (CCAUC) a'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd i wella cynrychiolaeth myfyrwyr yng Nghymru. Mae'r prosiect hwn yn amlygu pwysigrwydd Cynrychiolwyr Academaidd ym maes addysg. Cynhelir gwaith fel rhan o Fenter Ymgysylltu â Myfyrwyr Cymru y cewch eich gwahodd o bosibl i fynd iddo neu gyfrannu ato dros y flwyddyn neu adnoddau a gynhyrchir a fydd o ddefnydd i chi. Er enghraifft cynhelir digwyddiad undydd blynyddol ar gyfer Cynrychiolwyr Academaidd a chreir fforwm ar-lein i hyrwyddo cyfathrebu rhwng Cynrychiolwyr Academaidd.

Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr
Mae Undeb Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd yn aelod cyswllt UCM, sefydliad aelodaeth gwirfoddol sy'n ymgyrchu ar ran myfyrwyr ym maes addysg bellach neu addysg uwch. Mae'n darparu hyfforddiant ac arweiniad i'r Swyddog Materion Academaidd a Materion y Brifysgol o ran Cynrychiolwyr Academaidd ac yn cynnal cynhadledd flynyddol ar gyfer Cynrychiolwyr Academaidd ym mis Rhagfyr.

Strwythur Cyngor y Myfyrwyr

61 o gynghorwyr yn cynnwys:



1 Cadeirydd Cyngor y Myfyrwyr
Jen Lay layja@cardiff.ac.uk

8 Swyddog Etholedig Llawn Amser

7 Swyddog Etholedig Rhan Amser
Yr Amgylchedd a Moeseg
Myfyrwyr Rhyngwladol
Myfyrwyr Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol+
Myfyrwyr Aeddfed
Myfyrwyr Ôl-radd
Myfyrwyr ag Anableddau
Merched

60 o unigolion sydd ag aelodaeth arferol ag Undeb y Myfyrwyr

15 o gynghorwyr gweithgareddau
6 chynghorydd yr Undeb Athletau
6 chyghorydd y Cymdeithasau
2 gynghorydd Gwasanaethau a arweinir gan fyfyrwyr
1 cynghorydd Gwirfoddoli Myfyrwyr Caerdydd

15 o gynghorwyr Academaidd

14 o Gynrychiolwyr etholedig trawsgampws Cyngor y Myfyrwyr

9 Cynghorydd Grwpiau Lleiafrifol
3 Chynghorydd Rhyngwladol (heb gynnwys Swyddog Myfyrwyr Rhyngwladol)
1 Cynghorydd Myfyrwyr Aeddfed (heb gynnwys Swyddog Myfyrwyr Aeddfed)
3 Chynghorydd Myfyrwyr Ôl-radd (heb gynnwys Swyddog Myfyrwyr Ol-radd)
2 Gynghorydd o Gampws Parc y Mynydd Bychan

Eich rôl a'ch cyfrifoldebau

Tasg 1: Gwnewch yn siŵr fod y grŵp o fyfyrwyr rydych yn eu cynrychioli yn eich adnabod
Pam? Fel bod myfyrwyr yn ymwybodol bod system Cynrychiolwyr Academaidd ar waith, mai chi yw eu cynrychiolydd ac y dylent roi eu hadborth i chi os oes ganddynt unrhyw fater i'w godi (boed yn gadarnhaol neu'n negyddol).
Sut? Cyflwynwch eich hun fel y Cynrychiolydd Academaidd mewn darlithoedd a thrwy negeseuon e-bost i'r flwyddyn/cwrs cyfan.

Tasg 2: Ewch i sesiynau hyfforddi, cyfarfodydd y Cyngor Academaidd a digwyddiadau eraill a gynhelir ar eich cyfer
Pam? Fel y gallwch ganfod beth y dylech fod yn ei wneud a sut i wneud hynny. Weithiau bydd y Brifysgol neu Undeb y Myfyrwyr yn cynnal digwyddiadau y byddant yn gwahodd Cynrychiolwyr Academaidd iddynt. Dylech fynd i'r cyfarfodydd hyn lle y bo'n bosibl gan y bydd yn rhoi mwy o wybodaeth i'r Brifysgol a'r Undeb am eich profiadau fel myfyriwr.
Sut? Cadwch lygad am fanylion am hyfforddiant, cynghorau a digwyddiadau - gofynnwch i'ch adran a oes ganddi wybodaeth, neu ewch yn uniongyrchol at Undeb y Myfyrwyr i sicrhau bod ganddo eich manylion cyswllt.

Tasg 3: Nodi problemau ac anghenion myfyrwyr
Pam? Fel y nodwyd uchod, rôl y Cynrychiolydd Academaidd yw rhoi gwybodaeth i'r staff Academaidd a'r ysgol gyfan sy'n cynrychioli'r corff myfyrwyr cyfan.
Sut? Ceir cyfres o awgrymiadau o dan yr adran â'r teitl 'Materion a Chyflawniadau'.

Tasg 4: Cynrychioli safbwyntiau eich cyfoedion hyd yn oed pan nad ydych yn cytuno â hwy'n bersonol.
Pam? Drwy ein bywyd sylwn fod gennym safbwyntiau lleiafrifol. Pan fyddwch yn cynrychioli safbwyntiau'r garfan Academaidd gyfan mae'n bosibl y byddwch yn y lleiafrif ar rai materion. Ond eich rôl chi yw cynrychioli barn y mwyafrif.
Sut? Os yw'n glir bod gan nifer o fyfyrwyr broblem neu bryder ynghylch yr elfen Academaidd neu'n profi agweddau o'r elfen Academaidd mewn modd gwahanol i chi, rhaid i chi ganfod pam. Os oes dau safbwynt poblogaidd gwahanol gallwch bob amser egluro'r ddau i'r staff.

Tasg 5: Cymerwch ran weithredol mewn Paneli Myfyrwyr-Staff
Pam? Os na fydd Cynrychiolwyr Academaidd yn cymryd rhan mewn Paneli Myfyrwyr-Staff, nid oes pwynt eu cynnal. Dyma eich cyfle allweddol i beidio â chael eich ymgynghori ac i godi materion eich carfan gyda staff yr Ysgol neu'r Adran.
Sut? Ceisiwch ganfod cyn gynted â phosibl pryd y caiff y cyfarfodydd eu cynnal a chadwch yr amser hwnnw'n rhydd rhag gweithgareddau eraill. Os yw'n wirioneddol amhosibl i chi fynd i gyfarfod, siaradwch â'r Cadeirydd ymlaen llaw ynglŷn â chael copi o'r agenda a'r papurau yn gynnar fel y gallwch roi sylwadau arnynt, neu drefnu i fyfyriwr arall

fynd yn eich lle.

Tasg 6: Gweithiwch gydag Undeb y Myfyrwyr
Pam? Dim ond os byddwch yn dweud wrth Undeb y Myfyrwyr beth yw'r materion sy'n effeithio ar adrannau gwahanol y gall eu nodi. Mae Undeb y Myfyrwyr hefyd yn cydweithio â chynrychiolwyr myfyrwyr sy'n aelodau o bwyllgorau sefydliadol mawr a fydd wedyn yn gallu codi'r materion hyn ar eich rhan.
Sut? Cysylltwch â'r Swyddog Materion Academaidd a Materion y Brifysgol, codwch y mater yn un o gyfarfodydd y Cyngor Academaidd neu Gyngor y Myfyrwyr.

Tasg 7: Cydweithiwch â chynrychiolwyr eraill ar gyd-bryderon
Pam? Ar gyrsiau mwy o faint ceir mwy nag un Cynrychiolydd Academaidd ac o fewn yr Ysgolion lleiaf hyd yn oed ceir nifer o Gynrychiolwyr Academaidd. Bydd gweithio gyda chynrychiolwyr eraill yn eich galluogi i gyflwyno eich achos yn fwy effeithiol; cofiwch os oes gennych fater yn gyffredin, po fwyaf y bobl sy'n mynnu newid, y mwyaf tebygol ydyw o ddigwydd.
Sut? Trefnwch i gwrdd â Chynrychiolwyr Academaidd eraill yn rheolaidd, neu gwrdd ychydig ddyddiau neu hyd yn oed awr cyn y paneli myfyrwyr-staff er mwyn trafod y prif faterion y dymunwch eu codi.

Tasg 8: Helpwch i sicrhau y caiff safbwynt y myfyrwyr ei ystyried ym mhob penderfyniad
Pam? Mae rhoi safbwynt y myfyrwyr wrth wneud penderfyniadau yn rhan hanfodol o rôl Cynrychiolydd Academaidd, felly hefyd geisio dangos lle y cafodd ei ddiystyru o bosibl. Cofiwch, fel myfyriwr, chi yw'r arbenigwr ar brofiad y myfyriwr ar eich cwrs neu yn eich adran.
Sut? Os gwneir penderfyniad mawr y credwch y dylid cynnwys mwy o fyfyrwyr ynddo, peidiwch ag ofni dweud hynny a gofynnwch i'r adran beth y gallai ei wneud i ymgynghori â mwy o fyfyrwyr. Yn yr un modd, os teimlwch y dylech gael eich cynnwys mewn penderfyniadau nad ydych yn cael eich cynnwys ynddynt ar hyn o bryd, dywedwch hynny.

Tasg 9: Rhowch adborth i'ch cyfoedion ar ganlyniadau'r cyfarfodydd rydych yn eu mynychu
Pam? Fel y gallwch wneud yn si r bod eich cyfoedion yn hapus gyda chanlyniadau'r cyfarfod; os nad ydynt gallwch fynd yn ôl at yr adran neu'r aelodau o staff a datrys y dryswch. Mae adrodd yn ôl hefyd yn golygu bod myfyrwyr eraill yn gweld gwerth y system Cynrychiolwyr Academaidd ac yn gweld ei bod yn gallu gwella profiad dysgu myfyrwyr.
Sut? Caiff nifer o ddulliau awgrymedig o gyfathrebu â chyfoedion ar y cwrs eu disgrifio yn ddiweddarach, yn yr adran 'Cyfathrebu fel Cynrychiolydd'.

Tasg 10: Rhowch y wybodaeth ddiweddaraf ar hysbysfyrddau ac mewn fforymau a negeseuon e-bost
Pam? Mae'n bwysig eich bod yn rhoi adborth i'ch cyfoedion a Chynrychiolwyr Academaidd eraill yn rheolaidd, fel eu bod nid yn unig yn cael yr holl wybodaeth am y materion a drafodir, ond hefyd eu bod yn gallu cyfathrebu â chi yn hawdd ac effeithiol.
Sut? Bydd eich adran neu Ysgol yn sicrhau bod tyllau colomen ac/neu hysbysfyrddau wedi'u neilltuo i chi, fel y gall eich cyfoedion Academaidd gael gafael ar unrhyw gyhoeddiadau sydd gennych yn hawdd.

Materion a Chyflawniadau

Fel Cynrychiolydd Academaidd, bydd eich ffocws ar eich dosbarth neu ddisgyblaeth yn bennaf. Fodd bynnag, efallai y byddwch yn dymuno ymgyrchu dros faterion academaidd ehangach neu drefnu digwyddiadau cymdeithasol neu academaidd, sesiynau astudio neu fentrau cyffredinol ar gyfer y Brifysgol. Efallai y gofynnir i chi ymateb i faterion, boed hynny gan eich dosbarth neu'r adran/Ysgol. Efallai y bydd gennych faterion y dymunwch yn bersonol eu codi. Gall Cynrychiolydd Academaidd fod yn rhagweithiol yn ogystal ag ymatebol. Diben y rhestr ganlynol yw rhoi syniadau i chi am y mathau o faterion y gellir eu codi, a'r canlyniadau y gellir eu cyflawni yn eich rôl fel Cynrychiolydd Academaidd. Yn amlwg nid yw'r rhestr hon yn derfynol ac mae'n bosibl bod gennych faterion newydd i'w nodi.

Strwythur Academaidd
Efallai fod gan y dosbarth farn ar elfennau o'r pwnc o fewn y strwythur Academaidd a'r amser a roddir iddynt mewn darlithoedd a seminarau. Mae gweithdrefnau Sicrhau Ansawdd yn tybio bod gan fyfyrwyr fewnbwn mewn gwerthusiadau Academaidd, felly, gallwch gyfrannu at hyn.

Dulliau Addysgu
Efallai fod gan y dosbarth awgrymiadau ar sut i wella darlithoedd a seminarau drwy ofyn i'r darlithydd wneud cyflwyniad PowerPoint ar gyfer dysgwyr gweledol, nodiadau wedi'u paratoi, neu ddarparu mwy o ddeunyddiau ar Blackboard.

Asesu
Ceir amrywiaeth o ddulliau asesu a dyraniadau pwysoli ym Mhrifysgol Caerdydd. Efallai y bydd gan eich carfan gwestiynau am ffurf gwaith Academaidd, faint o waith Academaidd sydd i'w wneud neu faint y mae'n cyfrif tuag at eich marc terfynol. Efallai y bydd pryderon am y math o adborth a roddir a'r amser y mae'n ei gymryd i gael adborth gan ddarlithwyr ar aseiniadau.

Cyfleusterau Llyfrgell a Chyfrifiaduro
Fel arall, efallai y gofynnir cwestiynau am y cyfleusterau llyfrgell a chyfrifiaduro. Gall y rhain gynnwys cwestiynau am faint o gopïau o lyfrau penodol sydd ar gael yn y llyfrgell; a oes modd defnyddio cyfleusterau cyfrifiadurol pan fo angen; a gaiff y rhestr ddarllen ei ddiweddaru'n barhaus; a oes darpariaeth ddigonol ac amrywiaeth o ddeunyddiau ar eich rhestr ddarllen; p'un a yw'r llyfrgell ar agor yn ddigon hir neu a oes digon o le i unigolion a grwpiau astudio?

Terfynau Amser Traethodau
Efallai y bydd pryderon ynglŷn ag agosrwydd terfynau amser traethodau, neu p'un a yw terfynau amser yn gwrthdaro â rhai a osodwyd gan bwnc arall.

Amseroedd Darlithoedd
Fwy na thebyg, ni fydd yn bosibl i chi newid amseroedd eich darlithoedd fel bod gennych fwy o amser yn y gwely, ond efallai y bydd angen i chi drafod rhywbeth fel darlithoedd yn gwrthdaro ar gyfer yr un cwrs.

Llwyth Gwaith
Os oes barn gyffredinol fod y llwyth gwaith yn rhy drwm (neu'n rhy ysgafn!) gall fod yn werth ymdrin â'r mater, yn enwedig os yw graddau myfyrwyr yn dioddef yn sgîl hynny.

Llawlyfrau'r Cwrs
Efallai nad yw Llawlyfr y Cwrs yn cynnwys gwybodaeth ddigonol am gyfeirnodi, meini prawf marcio ar gyfer asesiadau, deilliannau dysgu clir, sut i ddefnyddio'r system Cynrychiolaeth Academaidd a gwybodaeth am lên-ladrad.

Blackboard
Problem sy'n dod yn gynyddol gyffredin yw p'un a yw deunyddiau cynnwys cwrs yn berthnasol ac yn ddefnyddiol mewn gwirionedd, a ydynt o ansawdd da, ac a oes digon o ddeunyddiau ar gael drwy Blackboard.

Offer Newydd
Mae'n bosibl bod angen diweddaru offer presennol neu efallai yr hoffech weld offer cyfangwbl newydd yn eich adran. Er enghraifft, mae nifer gynyddol o bynciau yn gwneud mwy o ddefnydd o dechnoleg gwybodaeth ar eu cyrsiau, gydag aseiniadau a thiwtorialau ac ati ar-lein. Efallai y bydd angen sesiynau dysgu cyfrifiadurol i gyd-fynd â'r rhain.

Gweithio o fewn eich Ysgol neu adran

O fewn eich adran dylai fod yn bosibl datrys y rhan fwyaf o broblemau drwy gyswllt anffurfiol, neu drwy eu codi mewn Paneli Myfyrwyr-Staff. Bydd yn hawdd mynd at nifer o ddarlithwyr a Threfnwyr Academaidd yn anffurfiol ac fel arfer mae'n werth chweil codi materion gyda'ch darlithwyr neu Drefnydd Academaidd cyn cyfarfod Panel Myfyrwyr-Staff. Ceir y canlyniadau gorau bob tro pan fydd myfyrwyr a staff yn cydweithio. Fodd bynnag, os teimlwch na ellir datrys y mater, neu os hoffech gael rhywfaint o help ar y ffordd orau o weithredu, cysylltwch â'r Swyddog Materion Academaidd a Materion y Brifysgol.Os nad yw'r Adran/ Ysgol yn gwbl ymwybodol o'i dyletswyddau a'i rhwymedigaethau i'r system Cynrychiolwyr Academaidd, dylech ei gwneud yn ymwybodol ohonynt, neu ofyn i Undeb y Myfyrwyr am help.

Pa gymorth y gallwch ei ddisgwyl gan y Brifysgol

Ma'r Brifysgol yn cydnabod y system cynrychiolaeth academaidd yn ffurfiol. Dyma grynodeb o'r cymorth a'r adnoddau y dylai'r Brifysgol eu darparu:

Noder:

• Dylai fod ffordd gyson o ethol Cynrychiolwyr Academaidd ar sail Academaidd neu flynyddol. Dylai fod un Cynrychiolydd Academaidd ar gyfer yr 50 cyntaf o fyfyrwyr a chynrychiolydd arall am bob 100 o fyfyrwyr wedi hynny. Dylid ethol Cynrychiolwyr Academaidd yn gynnar yn y flwyddyn academaidd er mwyn sicrhau'r cyfle gorau i gael cynrychiolaeth effeithiol.

Cymorth gan Drefnwyr y Cwrs

• Bydd Trefnwyr y Cwrs yn treulio cyfnod byr naill ai yn y ddarlith gyntaf neu mewn cyfarfodydd croeso ar gyfer myfyrwyr newydd yn amlinellu manteision cyfranogiad myfyrwyr adeiladol gan sôn am Gynrychiolwyr Academaidd a Chynrychiolwyr Ysgol fel cyswllt delfrydol rhwng myfyrwyr a'r Ysgol.
• Caiff dyddiadau hyfforddi Cynrychiolwyr Academaidd eu dosbarthu i'r

Trefnwyr Academaidd a dylai'r Cynrychiolwyr gael gwybod bod yn rhaid iddynt fynd i'r sesiynau hyn.

• Gofynnir i Drefnwyr y Cwrs sicrhau bod llawlyfrau'r Cwrs yn cynnwys disgrifiad byr o'r system Cynrychiolaeth Academaidd, a bod enwau a manylion cyswllt Cynrychiolwyr Academaidd yn cael eu cynnwys ar wefannau'r maes pwnc, a thrwy ddulliau cyfathrebu eraill.

• Bydd Trefnwyr y Cwrs yn darparu gwybodaeth gywir am nifer y Cynrychiolwyr Academaidd i'r adran gofrestru.

• Ceir rhestr o Gynrychiolwyr Academaidd mewn adrannau yn gynnar yn y flwyddyn academaidd, a chaiff myfyrwyr wybod am hyn.

Cymorth gan Swyddfeydd Ysgolion

• Caiff lle ar hysbysfyrddau meysydd pwnc a swyddfeydd ysgolion a hysbysfyrddau adrannol ei neilltuo at ddefnydd Cynrychiolwyr.

• Caiff tyllau colomen mewn meysydd pwnc a swyddfeydd ysgolion eu neilltuo at ddefnydd Cynrychiolwyr.

• Dylai Cynrychiolwyr fod yn gallu e-bostio pob myfyriwr o fewn ysgol e.e. gyda manylion Paneli Myfyrwyr-Staff sydd i ddod.

• Dylai fod un cyswllt a enwir o fewn Swyddfa'r Ysgol y gall Undeb y Myfyrwyr a'r Cynrychiolwyr enwebedig gysylltu ag ef yngl n â materion Cynrychiolaeth Academaidd

Cymorth arall gan y Brifysgol

• Efallai y bydd Cynrychiolwyr yn dymuno cynorthwyo yn y broses o recriwtio Cynrychiolwyr Academaidd newydd a dylent allu gwneud hynny. Gall cynrychiolwyr gael eu gwahodd i sesiynau croeso Ysgolion i bwysleisio pwysigrwydd cynrychiolaeth academaidd myfyrwyr.

• Dylid rhoi enwau Cynrychiolwyr myfyrwyr i Undeb y Myfyrwyr unwaith iddynt gael eu hethol. Mae'n hanfodol bod y wybodaeth hon yn gywir, fel y gall yr Undeb gysylltu â'r Cynrychiolwyr i'w hysbysu o'r hyfforddiant a'r cymorth sydd ar gael.

• Dylid annog cynrychiolwyr i ddefnyddio Blackboard, groups.cardiffstudents.com a'r adran i Gynrychiolwyr Academaidd ar wefan yr Undeb i hysbysu myfyrwyr am gyfarfodydd a gwybodaeth berthnasol.

• Dylai Penaethiaid Ysgolion sicrhau bod yr holl Staff allweddol yn ymwybodol o'u dyletswyddau a'u cyfrifoldebau sy'n ymwneud â Chynrychiolwyr Academaidd.

Paneli Myfyrwyr-Staff

Cyfarfodydd yw'r Paneli Myfyrwyr-Staff lle mae Cynrychiolwyr Academaidd, Trefnwyr Cyrsiau a staff perthnasol eraill yn trafod materion academaidd, e.e. dulliau addysgu, gweithdrefnau asesu, cyfleusterau ac adnoddau. Mae'r strwythurau a'r systemau o fewn pob Ysgol yn amrywio, ac felly nid oes union ddiffiniad o Banel Myfyrwyr-Staff yn bodoli. Mae rhai yn fwy ffurfiol nag eraill a bydd gweithdrefnau yn amrywio. Fel arfer, bydd sawl Cynrychiolydd Academaidd yn bresennol mewn cyfarfod, sy'n ei wneud yn llai bygythiol.

Cadw Cofnodion

Cedwir cofnodion swyddogol o'r hyn a ddywedwyd yn y cyfarfod. Mewn Paneli Myfyrwyr-Staff byddai'n ddefnyddiol i chi gofio pa bynciau a drafodwyd i'ch helpu i roi adborth i'ch carfan. Ar ôl trafodaeth bellach, ceir cyfres o 'Bwyntiau Gweithredu'. Nodwch pwy y gofynnwyd iddo wneud rhywbeth yn y cyfarfod ac erbyn pryd. Fel arfer, trafodir cynnydd yr unigolyn hwnnw o ran y dasg honno yn y cyfarfod nesaf.

Strwythur cyfarfodydd Paneli Myfyrwyr-Staff

Er y bydd union strwythur y cyfarfodydd yn amrywio o adran i adran, dyma'r strwythur sylfaenol y mae nifer yn ei ddilyn:

Cofnodion y cyfarfod diwethaf

Dylai unrhyw ddiwygiadau ffeithiol i'r cyfarfod diwethaf (er enghraifft, os yw'r cofnodion yn nodi bod rhywun yn absennol, pwy yn union oedd yn bresennol) gael eu gwneud yma.

Materion sy'n codi

Dylai materion sy'n ymddangos yn y cofndion diwethaf y mae angen eu hanfon neu wneud gwaith dilynol yn eu cylch gael eu crybwyll yma. Os credwch fod rhywbeth y dylid ei nodi ond nad yw'n ymddangos yn unrhyw le arall ar yr agenda, peidiwch bod ag ofn codi'r mater.

Eitemau'r Agenda

Os oes gennych fater mawr i'w drafod dylech ei grybwyll yma. Gofynnwch i'r eitem gael ei rhoi ar yr agenda ymlaen llaw, er mwyn rhoi amser i aelodau'r panel ei hystyried ymlaen llaw, neu wneud unrhyw ymchwil sydd ei hangen cyn y cyfarfod.

Unrhyw Fater Arall (UFA)

Mae hwn yn gyfle i unrhyw un sy'n bresennol godi unrhyw faterion sy'n berthnasol i'r cyfarfod. Dylech fanteisio ar y cyfle; fodd bynnag ni ddylech gyflwyno unrhyw faterion neu broblemau mawr i'r panel ar yr adeg hon.

Dyddiad y cyfarfod nesaf

Caiff dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf ei gofnodi, ac mae'n werth cadw'r agenda bob amser, rhag ofn i chi anghofio pryd y cynhelir y cyfarfod nesaf.

Cynnal cyfarfodydd Panel Myfyrwyr-Staff llwyddiannus

Meddyliwch am faterion sydd i ddod

Ystyriwch yr hyn rydych yn dymuno ei godi cyn y cyfarfod ac unrhyw faterion y gofynnir i chi ymateb iddynt o bosibl. Treuliwch ychydig amser yn darllen cofnodion y cyfarfod diwethaf ac unrhyw eitemau eraill a anfonir atoch o bosibl.

Ymgynghori ag aelodau eraill o'r panel

Yn dibynu ar y materion sy'n debygol o

godi yn y cyfarfod, efallai y dymunwch ymgynghori â phobl eraill ar y panel, i asesu eu barn a rhoi'r cyfle i chi fynegi eich safbwyntiau cyn y cyfarfod ei hun.

Siarad â Chynrychiolwyr Academaidd eraill

Mae bob amser yn werth trafod pethau gyda Chynrychiolwyr Academaidd eraill ar y panel cyn y cyfarfod. Pa faterion sydd angen eu codi yn eu barn hwy? A allwch gyflwyno safbwynt unedig, neu a oes anghytuno ar rai materion?

Ymgynghori â Myfyrwyr

Uwchlaw popeth, ymgynghorwch â'r myfyrwyr rydych yn eu cynrychioli. Nid oes gwerth gwthio eich safbwyntiau personol eich hun os nad yw'r rhan fwyaf yn eu rhannu. Ar ddechrau darlith, cymerwch bleidlais i ganfod nifer y myfyrwyr sy'n anhapus gyda 'x'; bydd gennych dystiolaeth yn syth.

Rhoi papurau ar yr agenda

Mewn rhai achosion, yn enwedig pan fydd mater mawr neu ddadleuol yn y fantol, mae'n werth llunio papur ar gyfer y panel sy'n disgrifio eich syniadau yn glir. Gallant ei ddarllen cyn y cyfarfod, ei ystyried a chyfeirio ato. Os byddwch am baratoi papur, gall Swyddog Materion Academaidd a Materion y Brifysgol eich helpu i'w ysgrifennu a'i gynllunio. Fodd bynnag, mewn rhai achosion, ni fydd angen papur ffurfiol. Mewn argyfwng, os na fydd digon o amser i anfon papur at y panel gallwch gyflwyno'r papur yn y cyfarfod (dewch ag ef gyda chi, gan sicrhau bod digon o gopïau i bawb). Dylech roi gwybod i'r cadeirydd os byddwch am wneud hyn.

Cadeirio cyfarfodydd

Mewn rhai achosion, caiff cyfarfodydd eu cadeirio gan Gynrychiolwyr Academaidd i sicrhau bod myfyrwyr yn chwarae rhan weithredol. Efallai y dymunwch awgrymu hyn i'ch adran.

Galw cyfarfodydd

Os daw mater pwysig iawn neu frys i law, mae hawl gennych alw cyfarfod y Panel Myfyrwyr-Staff i ystyried y mater ar unwaith. Siaradwch â'r cynllunydd neu'r cadeirydd cyn gwneud hyn.

Dal sylw'r cadeirydd

Yn aml iawn mae hyn yn debyg i archebu diodydd, a gall fod yn rhwystredig iawn. Unwaith y byddwch wedi codi eich llaw, ceisiwch gael cyswllt llygaid, a chydnabyddiaeth y cewch siarad. Os bydd y drafodaeth yn dechrau symud at bwnc arall heb i chi gael cyfle i siarad, torrwch ar ei thraws gan egluro bod rhywbeth yr hoffech chi ei ddweud. Nodwch y gall cadeirio cyfarfod fod yn anodd iawn ac mae'n hawdd anwybyddu pobl yn anfwriadol.

Gofynnwch gwestiynau

Peidiwch bod ag ofn gofyn cwestiynau. Yn aml mae hyn yn ffordd werthfawr iawn o gyfrannu ac ni ddylai'r panel dybio eich bod yn gwybod neu'n deall popeth.

Byddwch yn adeiladol

Ceisiwch beidio â gadael i gyfarfodydd panel fynd yn wrthdrawiadol; ni chaiff llawer ei gyflawni fel hyn. Yn aml mae buddiannau'r myfyrwyr a'r staff yn debyg. Os yw staff yn anhapus, caiff hyn effaith ar y myfyrwyr a'u hagwedd Academaidd. Ymagwedd gadarnhaol ac adeiladol yw'r ffordd orau o ymdrin â Phaneli Myfyrwyr-Staff.

Cyfathrebu

Yr allwedd i lwyddo fel Cynrychiolydd Academaidd yw cyfathrebu da, gyda staff a myfyrwyr. Mae'n bwysig eich bod yn ceisio barn y bobl ar eich cwrs yn weithredol, a hynny y tu allan i'ch gr p penodol o ffrindiau. Rhaid i chi hefyd adrodd yn ôl i'ch cyfoedion er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt am unrhyw ddatblygiadau. Unwaith y cewch eich ethol mae'n bwysig eich bod yn mynychu hyfforddiant Cynrychiolwyr Academaidd. Bydd yr hyfforddiant hwn yn rhoi gwybod i chi sut y caiff y system Cynrychiolaeth Academaidd ei threfnu, a'ch helpu i gyfathrebu'n effeithiol o fewn y system.

Fel Cynrychiolydd Academaidd, mae'n bwysig sylweddoli nad yw eich barn bersonol chi o reidrwydd yn adlewyrchu teimladau'r dosbarth cyfan. Gall rhai fod yn gwneud y cwrs fel prif bwnc gradd neu gwrs cyfun, yn yr un modd mae'n bosibl bod gan rai gefndiroedd gwahanol yn y maes pwnc hwnnw. O ganlyniad, bydd gan bawb anghenion gwahanol, ac mae'n bosibl y bydd ganddynt safbwyntiau gwahanol am y cwrs. Rhaid i'ch cyfoedion eich gweld fel rhywun sy'n hawdd mynd ato a gwybod sut i gysylltu â chi am unrhyw fater y gallwch ei godi ar eu rhan. Fodd bynnag nid yw cynrychiolwyr myfyrwyr yn cymryd rhan mewn cwynion academaidd unigol, e.e. apeliadau. Os daw myfyriwr atoch i drafod problem unigol dylech ei gyfeirio at Bennaeth yr Ysgol neu'r Ganolfan Cynghori a Chynrychioli (ar 3ydd Llawr adeilad Undeb y Myfyrwyr) lle bydd staff profiadol ar gael i helpu.

Dulliau Cyfathrebu

Tyllau Colomen

Dylai twll colomen fod ar gael i chi o fewn yr adran, lle rhoddir llythyrau a gyfeirir atoch. Eich cyfrifoldeb chi yw edrych yn y twll yn rheolaidd, yn enwedig os ydych yn bwriadu annog eich dosbarth i'w ddefnyddio i gyfathrebu â chi.

Cyhoeddiadau mewn Darlithoedd

Defnyddiwch ddarlithoedd i annog pobl yn eich dosbarth i ddod atoch neu eich e-bostio. Os yw eich wyneb yn gyfarwydd i'r dosbarth, byddant yn teimlo'n fwy parod i ddod atoch a byddwch yn gallu ceisio barn y dosbarth yn well. Mae'n bwysig iawn bod y dosbarth yn eich adnabod. Dylai darlithwyr/tiwtoriaid fod yn fwy na bodlon i chi gyfarch eich dosbarth neu gr p tiwtor, dim ond i chi ofyn iddynt ymlaen llaw. Mae hon yn ffordd dda o hysbysu eich cyfoedion o unrhyw faterion newydd a gofyn am adborth arnynt.

E-bost

Dylai eich Trefnydd Academaidd neu aelod o staff gweinyddol roi rhestr o gyfeiriadau e-bosti chi fel y gallwch gyfathrebu â'ch dosbarth yn gyflym ac yn hawdd. Fel arall gallech ofyn i'ch Trefnydd Academaidd neu staff gweinyddol anfon e-bost a ysgrifennwyd gennych ymlaen at aelodau'r dosbarth. Mae cadw llygad ar eich cyfrif e-bost yn hanfodol.

Hysbysfyrddau

Dylai fod lle ar hysbysfwrdd eich adran neu Ysgol i chi. Bydd hyn yn eich galluogi i arddangos materion, cyhoeddiadau a chofnodion y Panel Myfyrwyr-Staff i'r wybodaeth ddiweddaraf i'ch dosbarth. Cofiwch, eich gofod CHI yw hwn. Nid galluogi pobl i hysbysebu clybiau nos yw ei ddiben, na gosod hysbysiadau adrannol cyffredinol: felly gallwch eu tynnu os y mynnwch.

Ymhlith y pethau i'w rhoi ar eich hysbysfwrdd mae:

- Enwau a wynebau - Dylai'r adran gyhoeddi rhestr lawn o'r Cynrychiolwyr Academaidd.
- Anogaeth i'ch dosbarth gysylltu â chi a rhoi adborth i chi - gall rhoi slipiau adborth ar yr hysbysfwrdd annog aelodau'r dosbarth i roi sylwadau ac argymhellion i chi. Efallai y dymunwch roi eich cyfeiriad e-bost ar y bwrdd.
- Gwybodaeth am Undeb y Myfyrwyr.
- Cofnodion y Paneli Myfyrwyr-Staff - er mwyn galluogi pobl i weld yr hyn a drafodwyd. Fel arall, gallech greu adroddiad byr yn crynhoi prif bwyntiau'r drafodaeth sydd o ddiddordeb i'r dosbarth.
- Gallai cymdeithasau sy'n seiliedig ar bwnc ddefnyddio'r hysbysfwrdd i hysbysebu eu digwyddiadau. Gall fod digwyddiadau eraill o fewn yr adran y mae angen eu hysbysebu, er enghraifft, gwerthiannau llyfrau a digwyddiadau cymdeithasol. Os nad oes gan eich pwnc gymdeithas, dylech ystyried dechrau un. Er mwyn gwneud hyn, cysylltwch â'r Cydlynydd Democratiaeth a Chymdeithasau Myfyrwyr, Jemma Mallorie ar 02920 781433 neu e-bost HYPERLINK "mailto:mallorieJ1@cardiff.ac.uk" mallorieJ1@cardiff.ac.uk

Holiaduron

Gall holiaduron fod yn syml iawn, gydag un neu ddau gwestiwn, ond maent yn rhoi'r cyfle i chi gysylltu â llawer o bobl yn y dosbarth i gael eu barn, ac yn eich galluogi i ddangos barn y dosbarth mewn modd pwerus. Os credwch yr hoffech greu holiadur, mae croeso i chi gysylltu â'r Swyddog Materion Academaidd a Materion y Brifysgol am gyngor ac arbenigedd gwerthfawr.

Mynd â phethau ymhellach

Efallai y byddwch yn teimlo weithiau bod materion yn codi sy'n effeithio ar fyfyrwyr y tu hwnt i'ch cwrs, neu efallai eich bod am weithio gyda Chynrychiolwyr Academaidd eraill yn eich Ysgol ar fater. Mae'n bwysig wrth drosglwyddo'r wybodaeth a gewch gan fyfyrwyr eraill i staff, eich bod yn rhoi manylion iddynt a fydd yn eu cynorthwyo i ddefnyddio'r adborth a roddwch mewn modd cadarnhaol. Bydd y cwestiynau canlynol yn eich cynorthwyo i gasglu mwy o wybodaeth.

Beth yw'r broblem? Ceisiwch egluro mor syml â phosibl beth sydd o'i le ar y cwrs a beth sy'n dda amdano.

Pam bod hyn yn broblem? Mae'n effeithio ar ansawdd yr addysgu drwy..; neu mae'n effeithio ar allu'r myfyrwyr i ddysgu oherwydd.

Sut wyddoch chi ei fod yn broblem? Mae cwynion/sylwadau wedi cael eu gwneud, mae myfyrwyr wedi siarad â chi (tystiolaeth).

Ble mae hyn yn broblem? Mewn modiwl/ rhaglen/ blwyddyn/ adran/ sefydliad? Ar bwy y mae'r broblem yn effeithio?Grwpiau blwyddyn gwahanol, israddedigion, ôl-raddedigion a addysgir ac/neu ôl-raddedigion ymchwil, dynion, merched, myfyrwyr cartref neu myfyrwyr rhyngwladol, myfyrwyr aeddfed, myfyrwyr mewn campysau, dysgwyr o bell.

Pryd y mae'n broblem? A ddylai'r cwrs neu'r Ysgol fod yn ymwybodol o derfynau amser neu amserlenni yn ymwneud â'r mater.

Cysylltiadau Defnyddiol

Cydlynydd Cynrychiolaeth Academaidd
academicreps@cardiff.ac.uk
029 2078 1

Sarah Ingram
Swyddog Materion Academaidd a Materion y Brifysgol
AcademicOfficer@cardiff.ac.uk
029 2078 1428

Rose Savage
Swyddog Lles, Ymgyrchoedd a Chyfathrebu
WelfareCampaignsOfficer@cardiff.ac.uk
029 2078 1422

Oli Luton
Swyddog Integreiddio Gofal Iechyd Myfyrwyr
HealthcareOfficer@cardiff.ac.uk
029 2078 1420

Y Ganolfan Cyngor a Chynrychiolaeth,
3ydd Llawr, Undeb Myfyrwyr Caerdydd.
advice@cardiff.ac.uk
029 2078 1410
Oriau Agor: 10.00am – 3.00pm (ar gau bob bore dydd Iau)

Y Ganolfan Cymorth Myfyrwyr
50 Plas-y-Parc
02920 874844
Tŷ Aberteifi ar safle Parc y Mynydd Bach
029 2074 2070
studentsupportcentre@cardiff.ac.uk
Oriau Agor: 9.30am – 4.30pm

Olly Birrell
Llywydd
President@cardiff.ac.uk
029 2078 1425

Am fanylion cyswllt swyddogion etholedig eraill, ewch i www.cardiffstudents.com/tags/elected-officers